# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cygnor, Nos Fawrth 11/07/2023 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mared Llywelyn Williams (Cad) | Catrin Roberts | Gruffydd Williams | Arfon Hughes | Gwynfor Jones |
| Dafydd Dobson | Gareth Jones | Alaw Llewelyn Roberts | Carys Roberts | Caren Jones |
| Rhys Llewelyn | Janice Evans | Lleucu Jones | Pat Humphreys (Clerc) | |

Dymuna'r aelodau gydymdeimlo hefo David Parry ar farwolaeth ei bartner Iorwen Adams. Mae'r ddau yn gweithio i Cyngor Tref Nefyn ers blynyddoedd lawer yn torri'r mynwentydd i gyd ac yn gwneud gwaith da iawn, fe fydd colled mawr ei hôl.

1. **Ymddiheuriadau.**
   Gito Williams.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Dim

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Hybrid 13/06/2023
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Gareth Jones Eilio: Arfon Hughes

4. **Unrhyw Fater Brys**
   - **Parcio yn Edern –** Caren Jones
     Mae pryder mawr ynglŷn â diffyg llefydd i barcio yn Edern sydd yn achosi problemau mawr yn y pentref. Cafwyd cyfarfod hefo swyddogion Cyngor Gwynedd, yr aelod lleol ac aelodau CTN i drafod y sefyllfa a ceisio creu lle parcio yn y pentref ond nid oes dim wedi digwydd ers hynny. Mae'r aelod lleol am gysylltu hefo swyddogion Cyngor Gwynedd i drefnu cyfarfod arall a penderfynwyd i'r aelod lleol ddrafftio llythyr i'r Clerc yrru iddynt hefyd.
   - **Trydan Siop Siarad –** Clerc
     Mae'r clerc wedi cysylltu hefo N Power i gael pris am gyflenwad trydan i Siop Siarad er mwyn eu cymharu hefo'r prisiau sydd eisioes wedi eu cael gan E.On Next ac hefyd oherwydd mai N Power sydd yn cyflenwi trydan y Llyfrgell. Nid yw N Power yn derbyn cwsmeriaid newydd ar y funud felly mae'r clerc wedi cysylltu eto hefo E.On Next i gael prisiau cyfredol.
     Penderfyniad: Derbyn cytundeb sefydlog am flwyddyn hefo E.On Next.
     Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Rhys Llewelyn
   - **Llwybrau – Gruffydd Williams**
     Cafwyd diweddariad gan aelod lleol Nefyn am y llwybrau. Mae sawl un wedi cwyno am gyflwr y llwybrau ac mae'r aelod lleol wedi cysylltu hefo'r swyddogion perthnasol i basio'r neges ymlaen. Mae Cyngor Gwynedd wedi cysylltu hefo trigolion lleol ynglŷn â torri'r gwrychoedd sydd yn dod drosodd i'r palmentydd ac mae'r gwaith o'u torri wedi cychwyn gan rai.
   - **Cais am grant Llwybr Benrallt Nefyn -** Gruffydd Williams â'r Cadeirydd

Cafwyd diweddariad ar y cais am grant. Mae'r cais yn cael ei gyflwyno i Cyngor Gwynedd dydd Gwener ar ôl derbyn dros gant o lythyrau yn cefnogi gan drigolion yr ardal, plant Ysgol a busnesau lleol a deiseb hefo dros 500 o enwau.
Penderfynwyd gyrru llythyr i Cyngor Gwynedd ynglŷn â Llwybr yr Arfodir sydd rhwng Nefyn a Morfa sydd yn lwybr aml ddefnydd. Mewn sawl lle mae'r llwybr yn cau ac mae llêd y llwybr i fod yn 1.5 medr ac mewn rhai mannau mae o wedi cau hefo llysdyfiant ac yn ddim ond rhyw droedfedd o lêd, felly mae angen llythyr i'w atgoffa o'u ddyletswyddau statudol ynglŷn â'r llwybr aml ddefnydd yma.

5. **Mynwentydd –** Gito Williams & Clerc
Gan nad yw'r aelod yn bresennol heno ac o ysytried yr amgylchiadau penderfynwyd gadael i'r mater yma fod a gweld sydd fydd y sefyllfa erbyn mis Medi. Cafwyd cadarnhad gan un o aelodau Edern fod yna gontractwr wedi cynnig strimio mynwent Edern am ddim.

6. **Wifi yn Siop Siarad a sefydlu Is-bwyllgor ar gyfer Siop Siarad –** Clerc & Arfon Hughes
Mae un o'r aelodau wedi siarad hefo yr Heliwr ynglŷn â cael rhannu wifi cymunedol yr Heliwr ac nid oes gwrthwynebiad ganddynt ond mae rhai o'r aelodau yn bryderus ynglŷn â preifatrwydd wifi cymunedol yn enwedig wrth drafod materion CTN felly penderfynwyd i'r Clerc gysylltu hefo gwahanol cwmniau i gael prisiau a'r Is-bwyllgor gyfarfod i'w trafod.
Danghosodd 4 aelod ddiddordeb mewn bod ar Is-bwyllgor Siop Siarad felly mae'r Is-bwyllgor wedi cael ei sefydlu.

7. **Y Llyfrgell – cais i gael gwared a'r toiled staff –** Diweddariad
Mae'r Clerc wedi derbyn amcanbris i wneud y newidiadau yn y Llyfrgell gan Cyngor Gwynedd.
Penderfyniad: Derbyn y pris ond y Clerc i ofyn faint o silffoedd sydd yn y pris i wneud yn saff fod digon.
Cynnig: Alaw Llewelyn Roberts   Eilio: Rhys Llewelyn

8. **Coeden y Llyfrgell – Amcanbris gan Gwasanaeth Coed Llŷn –** Clerc
Derbyniwyd pris i dorri brigau y goeden sydd wrth y Llyfrgell.
Penderfyniad: Derbyn y pris.
Cynnig: Arfon Hughes   Eilio: Gruffydd Williams

9. **Dyfynbrisiau y Byrddau Gwybodaeth –** Diweddariad
Cafwyd diweddariad ar y mater ar ôl i'r Is-bwyllgor byrddau gwybodaeth gyfarfod yn dilyn y pwyllgor llawn mis diwethaf. Penderfynwyd i sortio allan beth oedd yn mynd ar y byrddau gwybodaeth cyn dewis pris i'w gosod ac fe fydd y gwaith o hel y defnydd i fynd arnynt wedi ei gwblhau erbyn ganol i ddiwedd mis Awst.
Penderfynwyd trefnu i roi rhywbeth arnynt dros dro gan fod pobol yn rhoi posteri i fyny arnynt heb ganiatad, mae Cadeirydd yr Is-bwyllgor am fynd ar ôl hyn.

10. **Bryn Mynach a Parc y Ddôl – pris i ail beintio'r arwyddion, rêl ychwanegol ar y canllaw a trwsio arwydd Bryn Mynach. Pad 'Hopscoch' a 'Sliwan a Ystolion' –** Gruffydd Williams & Clerc
Mae'r Clerc wedi derbyn amcanbris i ail baentio'r arwyddion gan y person sydd wedi eu paentio yn wreiddiol.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes – 07967 556651

Penderfyniad: derbyn y pris.
Cynnig: Carys Roberts Eilio: Catrin Roberts
Mae angen trwsio arwydd 'Bryn Mynach' cyn iddynt gael eu ail baentio ac hefyd mae angen rêl ychwanegol ar ben y canllaw sydd ar y bont yno hefyd.
Penderfyniad: y Clerc i ofyn am bris gan ddau gontractwr sydd yn gweithio i CTN a'r aelodau gytuno ar y pris drwy ebost.
Mae'r pad 'Hopscoch' a 'Sliwan a Ystolion' angen eu ail baentio ac yn y pris gwreiddiol a dderbyniwyd gan yr arlunydd 'roedd gwarant i ddod nôl i'w paentio yn ystod y bum mlynedd cyntaf os oedd angen. Mae hi wedi bod yn ôl i'w paentio y llynedd ond maent angen eu gwneud eto y flwyddyn yma. Eglurodd yr aelod lleol na dim bai yr arlunydd yw hyn ond oherwydd nad yw'r padiau wedi cael eu gwneud yn iawn gan y contractwr yn y lle cyntaf ac felly nid oes gorffeniad iawn ar y pad i gymeryd y paent ac felly mae'n gofyn iddi gael ei rhyddhad o'r addewid yma ac i CTN drefnu eu paentio y flwyddyn yma ac mae'r aelod lleol am ymchwilio mwy i gael datrusiad tymor hir i hyn.
Penderfyniad: pasiwyd i'r Clerc anfon llythyr i'r arlunydd yn ei rhyddhau o'r gwarant ac mae un o'r aelodau am ofyn i Andrew Owen ac aelodau'r Clwb Ieuenctid os oes diddordeb ganddynt ei ail baentio am eleni, os ddim mae un o'r aelodau wedi cynnig ei ail baentio.

**11. Llwybr Pen y Bryn wrth ymyl Ty'n Llan, Edern –** Gito Wiliams
Gan nad yw'r aelod yn bresennol heno penderfynwyd pasio'r mater yma i'r pwyllgor nesaf.

**12. Gohebiaeth a Dderbyniwyd**
Dim.

**13. Ceisiadau Cynllunio**
Dim.

Ceisiadau Diweddarach
Dim.

**14. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1301.24
- Tyddyn Sachau – Blodau Nefyn - £560.64, Morfa - £152.89 a Edern - £520.91 - £1234.44
- Tyddyn Sachau – Blodau Edern - £28.96
- HMRC – PAYE Mis 3 - £242.31
- Ashley Hughes – offer swyddfa - £11.98
- Alan Wyn Adams – taliad 4 cytundeb llwybrau & gwaith ychwanegol - £1440.00
- Tyddyn Sachau – Blodau Morfa - £180.82
- Npower – Trydan Llyfrgell mis Mehefin - £261.26
- Cronfa Leol Nefyn, Morfa Nefyn ac Edern - Eisteddfod Genedlaethol 2023 – cyfraniad tuag at y Bysus Wennol - £1000.00
- Cyngor Gwynedd – Cyfraniad tuag at y Toiledau Cyhoeddus 2023-2024 - £12000.00

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes – 07967 556651

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.
Cynnig: Arfon Hughes   Eilio: Alaw Llewelyn Roberts

**15. Taliadau wedi eu derbyn**

- Ifan Hughes – angladd Griffith Partick Cowap - £1010.00
- Ifan Hughes – angladd Thomas Myfyr Wheldon – Williams - £1250.00
- Ifan Hughes – angladd Maira Helen Griffith - £865.00

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes – 07967 556651